

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn gofyn y cwestiwn "Beth mae'n ei olygu i fod yn blentyn neu'n berson ifanc yn yr oes sydd ohoni?" Mae'n ystyried bywydau beunyddiol plant a phobl ifanc ac yn datblygu dealltwriaeth well o astudiaethau plentyndod ac ieuencid cyfoes. Bydd myfyrwyr yn ystyried profiadau amrywiol yn ystod plentyndod ac ieuencid yn y DU a ledled y byd, drwy edrych ar bynciau gan gynnwys plentyndod yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, cyrff a meddyliau, anghydraddoldebau a chynhwysiant a gofod, lle a pherthyn. Y materion hyn yw man cychwyn yr archwiliad trawsddisgyblaethol hwn o astudiaethau plentyndod ac ieuencid, gan gwmpasu'r ystod oedran 0-18+ oed, ac yn cynnwys astudiaethau achos clyweledol o dair rhan gyferbyniol o'r byd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd neu radd uwch dda mewn disgyblaeth berthnasol
- gwybodaeth am Astudiaethau Plentyndod fel maes academaidd rhyngddisgyblaethol, ac am
- heriau'r dulliau rhyngddisgyblaethol
- dealltwriaeth o ddatblygiadau diweddar ym maes Astudiaethau Plentyndod
- ymwybyddiaeth o heriau a photensial israddedigion E232 a/neu Lefel 2 yn gyffredinol, mewn llwybrau cymhwyster gradd
- tystiolaeth o'r gallu i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol i
- ddatblygu eu llythrennedd academaidd a'u hunaniaeth
- tystiolaeth o'r gallu i hwyluso dysgu ac addysgu ar-lein, gan gynnwys drwy amgylcheddau dysgu rhithwir
- tystiolaeth o'r gallu i feithrin systemau dysgu myfyrwyr o ddeunyddiau print, clyweledol ac ar y we, ac oddi wrth ei gilydd
- tystiolaeth o'r gallu i asesu a rhoi adborth cefnogol ar aseiniadau myfyrwyr, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd tiwtora drwy ohebiaeth.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.